Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

Egwyddorion Arweiniol

Gydol 2012 a 2013, bwriad Cytûn yw hybu cydweithredu, trafod a chydweithio rhwng ein enwadau a'n eglwysi.

Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar dri maes:

1. Adeiladu a dyfnhau'r perthnasau rhwng yr enwadau a'r eglwysi, gan feithrin cyfeillgarwch a brawdoliaeth rhyngddynt.

2. Deall gyda'n gilydd meddwl Crist a hwyluso cyfleoedd ar gyfer gweddi a myfyrio.

3. Galluogi'r eglwysi i siarad yn fwy effeithiol yn y cylch cyhoeddus.

Nodi Llwyddiant:

Rydym yn diolch bod Cytûn wedi cyflawni llawer dros y flwyddyn ddiwethaf.

- Cydlynodd a threfnodd ein staff dystiolaeth yr eglwysi mewn tri digwyddiad cenedlaethol, sef **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol**.
- Gwarchodwyd ac amddiffynnwyd gwasanaethau **caplaniaeth** yn wyneb lobïo seciwlar. Ddiogelwyd gwasanaethau ysbrydol yn rhwymedigaethau statudol y Byrddau Iechyd Lleol.
- Defnyddiodd **Pwyllgorau Sefydlog ar Addysg Grefyddol** ledled yr awdurdodau lleol wasanaeth Cytûn i ddod o hyd i gynrychiolwyr yr eglwysi i fod yn aelodau o'r cyrff pwysig hyn.

Cynllun Gwaith 2012 + 2013

- Unwaith eto roedd y **Cwrs Croeso i Gymru 2011**, a gynhaliwyd yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf, yn llwyddiant mawr. Bydd yn cael ei gynnal eto yn 2012.
- Roedd y deunyddiau gweddïo ar gyfer yr **Wythnos o Weddi ar gyfer Undod Cristnogol** ar gael yn gwbl ddwyieithog, a chawsant eu defnyddio'n helaeth ledled Cymru yn dilyn ceisiadau gan eglwysi Cytûn.
- Parhaodd Cytûn i ddarparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer **Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru**.
- Chwaraeodd Cytûn rôl flaenllaw a gweithredu fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer **Cyngor Rhyng-ffydd Cymru**.
- Cynhyrchodd **Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol** gynigion helaeth i'w rhoi ger bron yr eglwysi yn ddiweddarach yn 2012 yn nigwyddiad y Cydgynulliad ym mis Hydref.
- Gweithiodd Cytûn gydag Eglwysi Ynghyd yn Lloegr i ddarparu **Hyfforddiant Swyddogion Eciwmenaidd**.
- Gofynnwyd i Cytûn gyfrannu at greu dathliadau cenedlaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Parhaom i **godi proffil gwaith a phryderon yr eglwysi** gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, yn y cyfryngau a'r gymdeithas ddinesig yn fwy eang.
- Ystyriodd **Fforwm Rhyngwladol Cytûn** a **Rhwydwaith Cyfiawnder Hiliol Cytûn** ymatebion yr eglwysi i rai o faterion gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd mwyaf dybryd y byd.
- Cyfarfu **Arweinwyr Eglwysig** ar gyfer cinio, sgwrs a gweddi, er mwyn dyfnhau'r frawdoliaeth rhwng yr enwadau.
- Gofynnwyd i **Brif Weithredwr Cytûn** i ymuno â phanel ymgynghorol datganoli sy'n ystyried datblygiad posib Mesur Hawliau newydd i'r DU.
- Parhaom i gynrychioli cymunedau ffydd Cymru ar **Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector**.
- Estynnwyd gwahoddiad i Brif Weithredwr Cytûn i fod yn Gadeirydd ar Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru.
- Mynychodd staff ac aelodau'r Bwrdd **gyfarfodydd enwadol** o amgylch Cymru.
- Gwnaed holl waith Cytûn gan **ddefnyddio adnoddau'n hynod effeithiol, ac o fewn y gyllideb**.

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

Cynlluniau ar gyfer 2012

Bydd 2012 yn flwyddyn brysur arall i Cytûn. Islaw mae ein rhaglen waith, "Cynllun Gwaith 2012 + 2013", sy'n gosod allan ein blaenoriaethau fel mudiad ac fel tîm staff.

Yn ogystal â'r presenoldeb blynyddol yn yr Urdd, y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol, byddwn yn cydlynu digwyddiad mawr Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yn yr Hydref, sef y "Cydgynulliad" yn Aberystwyth.

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at dderbyn ymwelwyr Cristnogol o Syria, ar ymweliad bugeiliol.

Unwaith eto byddwn yn helpu carfan o chwaer a brawd weinidogion sy'n cychwyn ar eu gweinidogaeth yng Nghymru am y tro cyntaf, yn ein cwrs "Croeso i Gymru" ym mis Hydref.

Yn bennaf oll, edrychwn ymlaen at gefnogi ein heglwysi a'n henwadau yn eu gwaith pwysig yn y flwyddyn sydd i ddod, ac at helpu i gynnal eu lle yn ein bywyd cenedlaethol.

Cynllun Gwaith 2012 + 2013

Byrfoddau: AE, Aled Edwards; GH, Geraint Hopkins; RL, Rhian Linecar; SP, Sasha Perriam

Mynegai lliw: Cytûn | Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol | Eglwysi Rhyddion

	Amcan/Canlyniad		Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
1	Datblygu a Chefnogi Partneriaethau Eciwmenaidd lleol	1.1	Gyda'r enwadau, canfod meysydd ar gyfer gwaith y Partneriaethau	RL/AE	Parhaus
		1.2	Canfod arbenigedd er mwyn meithrin a bwydo Partneriaethau	RL/AE	Parhaus
		1.3	Cefnogaeth Gyfansoddiadol/ Drefniadol	AE	Parhaus
2	Trefnu adnoddau ar gyfer eciwmeniaeth leol	2.1	Adnoddau gweddi ac addoli	RL	Parhaus
		2.2	Adnoddau litwrgaidd	AE/RL	Parhaus
		2.3	Diwygio a/neu gyhoeddi Defod newydd y Cymun	RL	Hydref 2012
3	Cefnogi gwaith Cytûn yn lleol		Cynyddu ymwybyddiaeth grwpiau lleol a rhanbarthol Cytûn o waith Cytûn.	AE/GH	Parhaus
4	Cynyddu ymwybyddiaeth o strwythyrau llywodraethau eglwysi o waith Cytûn	4.1	Cydlynu presenoldeb staff a/neu'r Bwrdd mewn cyrff llywodraethol	AE	Parhaus
		4.2	Rhoi cyflwyniadau i gyrff llywodraethol	AE/GH/RL	Parhaus

Cynllun Gwaith 2012 + 2013

Amcan/Canlyniad		Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
5 Cefnogi gwaith Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol	5.1	Trefnu a hwyluso digwyddiad y "Cydgynulliad" ym mis Hydref 2012	RL/AE	Parhaus
	5.2	Mae agenda'r Comisiwn yn un beiddgar a chreadigol sy'n cynnwys gwaith megis: - edrych ar yr hyn sydd gan yr eglwysi'n gyffredin ym meysydd Llywodraeth Eglwysig ac Arolygiaeth Fugeiliol - dod o hyd i ardaloedd i sefydlu Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol a chynnal trafodaethau lleol i hybu hyn - dod o hyd i gymunedau penodol, fel datblygiadau tai newydd, lle gellid sefydlu patrymau arbrofol ar gyfer gweinidogaeth eciwmenaidd - adolygu gwasanaeth Cymun Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol - cyd-weithio lleol gydag enwadau eraill sydd yn rhan o deulu Cytûn	RL	Hydref 2012

Cynllun Gwaith 2012 + 2013

Amcan/Canlyniad		Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
6 Cydlynu a Threfnu tystiolaeth yr Eglwysi mewn digwyddiadau cenedlaethol	6.1	Presenoldeb eglwysi Cytûn yn: - Y Sioe Frenhinol - Yr Eisteddfod Genedlaethol - Yr Urdd	RL	Parhaus
	6.2	A digwyddiadau eraill yn ôl y gofyn	RL/Pawb	Haf 2012
7 Cynnal a chynyddu ymwybyddiaeth o rôl bwysig Caplaniaeth yn y GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru	7.1	Cydlynu briffio a dylanwadu ar y llywodraeth/y wasg/ eraill	AE	Hyblyg
	7.2	Gweithio gyda'r eglwysi a'r enwadau ar Gaplaniaeth Cefn Gwlad	GH	Parhaus
	7.3	Herio'r achos seciwlar	GH	Parhaus
8 Galluogi dylanwad a phresenoldeb yr eglwysi mewn trafodaethau cenedlaethol a datblygiad polisi cyhoeddus	8.1	Cynnal cysylltiadau gwych gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus	GH	Parhaus
	8.2	Rhannu gyda'r eglwysi pa fo cyfleoedd ar gyfer cyfrannu at ymgynghoriadau cyhoeddus, gwaith y Cynulliad, a chydlynu gweithgaredd ar y cyd lle bo hynny'n addas ac yn ddymunol gan yr eglwysi	GH	Parhaus

Cynllun Gwaith 2012 + 2013

Amcan/Canlyniad		Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
8 Galluogi dylanwad a phresenoldeb yr eglwysi mewn trafodaethau cenedlaethol a datblygiad polisi cyhoeddus	8.3	Archwilio'r posibilrwydd o edrych eto ar "Cymru: Cymdeithas Foesol" gyda'r eglwysi	GH	Rhagfyr 2012
	8.4	Archwilio'r posibiliadau o gydweithio gyda'r Gynghrair Efengylaidd ar weithgaredd gwleidyddol adeg etholiadau	GH	Rhagfyr 2012
9 Cydlynu trafodaethau'r Eglwysi ynghylch addysg grefyddol		Gweithio gyda Chyngor yr Eglwysi Rhyddion ar gynrychiolaeth i CYSAGau a CCYSAGauC	GH	Parhaus
10 Ehangu hyfforddiant eciwmenaidd pellach yng Nghymru		Hyfforddiant Croeso i Gymru ar gyfer Gweinidogion sy'n dod i Gymru.	GH	Hydref 2012
11 Datblygu a chynnal perthynas dda gyda chyrff eciwmenaidd eraill		Cefnogi rhwydweithiau a'r gwaith ar y cyd gyda CTBI, CTE, ACTS, ICC CEC, WCC a chyrff eciwmenaidd eraill.	AE/GH/RL	Parhaus

Cynllun Gwaith 2012 + 2013

Amcan/Canlyniad		Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
12 Darparu adnoddau dwyieithog o ansawdd uchel ar gyfer addoliad eciwmenaidd yng Nghymru		Annog CTBI a chyrff eraill i gynhyrchu adnoddau dwyieithog i Gymru	AE	Parhaus
13 Darparu cyfleoedd i'r eglwysi drafod materion ynghylch athrawiaeth	13.1	Darparu ysgrifenyddiaeth o safon uchel ar gyfer y Comisiwn a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru	AE/GH/RL	Parhaus
	13.2	Cefnogi gwaith Panel Ffydd a Threfn y Comisiwn yn y meysydd hyn: - Bedydd - Gweinidogaeth - Y Cymun	RL	Parhaus
	13.3	Cydlynu Ymateb i Grŵp Cyfeirio Ffydd a Threfn CTBI	RL	Set 1af o Ymatebion erbyn Mawrth 2012, ac yna parhaus

Cynllun Gwaith 2012 + 2013

Amcan/Canlyniad		Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
14 Darparu cyfleoedd i'r eglwysi drafod materion yr eglwys a chymdeithas	14.1	Cyfiawnder Hiliol – Cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch gweinyddu y Fforwm Hil newydd	AE/SP	Parhaus
	14.2	Cenedl Noddfa	AE/GH	Rhagfyr 2012
	14.3	Materion Rhyngwladol (gan gynnwys Cymorth Cristnogol, Cafod a gwaith y Dwyrain Canol), gan gynnwys croesawu ymwelwyr Cristnogol o Syria yn ystod yr Hydref 2012	GH	Parhaus
	14.4	Cydlynu gwaith yn ymateb i gymunedau Cristnogol dan erledigaeth, gan gynnwys Eglwysi Iraq	AE	Parhaus
	14.5	Y Drafodaeth ar Gyfartaledd	AE/GH	Parhaus
	14.6	Rhyng-ffydd, gan sicrhau tystiolaeth Gristnogol yng nghyd-destun y drafodaeth	AE/SP	Parhaus
	14.7	Grŵp Ymgynghorwyr Eiddo'r Eglwysi	GH	Parhaus
	14.8	Deddfwriaeth y DU, RADAR a CLAS	GH	Parhaus

Cynllun Gwaith 2012 + 2013

Amcan/Canlyniad		Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
15 Darparu gwybodaeth i'r eglwysi a rhanddeiliaid er mwyn helpu trafodaeth	15.1	Papurau briffio cyson ar Bolisi ac Ymgyrchoedd, materion y llywodraeth, a materion eraill o'r cylch cyhoeddus	GH	Parhaus
	15.2	Rhoi gwybod am ddatblygiadau yn y mudiadau eciwmenaidd	AE	Parhaus
	15.3	Galluogi Aelodau'r Bwrdd i weithredu fel sianeli gwybodaeth effeithiol i'r enwadau	AE/Bwrdd	Parhaus
16 Gwasanaethu'r Eglwysi lle bo angen ar gyrff allanol	16.1	Cytûn i barhau i gynrychioli'r categori "Ffydd" ar CGGC a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector	GH	Parhaus
	16.2	Cynnal cysylltiadau rhagorol gyda llywodraeth, asiantaethau, a'r cylch cyhoeddus ehangach yng Nghymru	GH	Parhaus
	16.3	Darparu safbwynt Cymreig i'r trafodaethau ynghylch Mesur Hawliau newydd i'r DU	AE	Hydref 2012

Cynllun Gwaith 2012 + 2013

	Amcan/Canlyniad		Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
17	Rhoi sylw i weithgaredd enwadol a chydweithredu rhwng grwpiau o eglwysi		Defnyddio fforymau a phwyllgorau Cytûn, a ffyrdd eraill o gyfathrebu	AE/Pawb	Parhaus
18	Galluogi pobl i rannu barn â'i gilydd		Defnyddio fforymau a phwyllgorau Cytûn, a ffyrdd eraill o gyfathrebu	AE/Pawb	Parhaus
19	Helpu arweinwyr eglwysig i gyfarfod a chydrannu	19.1	Cydlynu Cyfarfod Blynyddol Arweinwyr Eglwysi Cytûn	AE	Yn dibynnu ar y dyddiadur
		19.2	Cydlynu cyfarfodydd cyson ar gyfer gweddi, brawdoliaeth a myfyrio	AE	Gydol 2012/13
		19.3	Cydlynu cyfarfod arweinwyr eglwysi'r Comisiwn a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru	GH/RL	Gydol 2012/13
20	Gwella amgylchedd gwaith ac effeithlonrwydd staff Cytûn	20.1	Datblygu system ffeilio electronig i bawb	Pawb	Haf 2012
		20.2	Gwella clirio sbwriel ac ailgylchu	SP/Pawb	Haf 2012
		20.3	Cael gwared â chelfi diangen	SP/Pawb	Parhaus
		20.4	Datblygu a gwella system archifo	GH	Haf 2012
		20.5	Rheol gyffredinol o gadw unrhyw beth am 6 blynedd	AE	Parhaus

Cynllun Gwaith 2012 + 2013

	Amcan/Canlyniad		Gweithgaredd	Dan Ofal	Amserlen
21	Datblygu, gwella a chynnal y Wefan		Ychwanegu gwybodaeth amserol a pherthnasol i www.cytun.org.uk	AE/GH/RL	Parhaus
22	Cynnal swyddfa weithio da ar gyfer Cytûn		Cynnal a chadw effeithiol ar systemau a phrosesau swyddfa	SP	Parhaus
23	Gwella cyfathrebu gyda'r Eglwysi	23.1	Cynhyrchu cylchlythyr Cytûn, a'i argraffu'n broffesiynol, 3 gwaith y flwyddyn	AE/SP	Parhaus
		23.2	Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol newydd	AE	Parhaus
		23.3	Defnydd cyson o bapurau enwadol	Pawb	Parhaus
		23.4	Cynyddu'r defnydd o'r papurau Saesneg eu hiaith	AE/GH/RL	Parhaus
		23.5	Rhannu gwybodaeth electronig yn well	Pawb/ Bwrdd	Parhaus
		23.6	Nodiadau Briffio Rheolaidd	GH	Oleiaf unwaith y mis
24	Cefnogi gwaith y Cyrff Cysylltiol		Ymgynghori â'r cyrff a chysylltu â'r Bwrdd	AE/SP	Parhaus